O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2008 Rhif 1890 (Cy. 179)

# YR IAITH GYMRAEG

# Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") caiff Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu bod yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweinidogion Cymru bellach) yn cael pennu cyrff cyhoeddus pellach at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu cyrff cyhoeddus pellach at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

Mae pum Gorchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (O.S. 1996/1898);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (O.S. 1999/1100);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (O.S. 2001/2550 (Cy.215));

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002 (O.S. 2002/1441 (Cy.145)); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004 (O.S. 2004/71 (Cy.7)).

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2008 Rhif 1890 (Cy. 179)

# YR IAITH GYMRAEG

## Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008

*Gwnaed* *16 Gorffennaf 2008*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *17 Gorffennaf 2008*

*Yn dod i rym* *11 Awst 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008 a daw i rym ar 11 Awst 2008.

**Pennu Cyrff Cyhoeddus**

**2.** Pennir y personau y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

*Rhodri Glyn Thomas*
Y Gweinidog dros Dreftadaeth, un o Weinidogion Cymru

16 Gorffennaf 2008

---

(**1**) 1993 (p.38).
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

# YR ATODLEN

*Erthygl 2*

| *Enw Cymraeg neu gyfieithiad o'r enw neu ddisgrifiad* |
| --- |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona |
| Awdurdod y Diwydiant Diogelwch |
| Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd |
| Banc Lloegr |
| Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu |
| Y Comisiwn Cystadlu |
| Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy |
| Y Comisiwn Etholiadol |
| Y Comisiwn Hapchwarae |
| Comisiwn y Loteri Genedlaethol |
| Cynghorau Sgiliau Sector |
| Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol |
| Cyngor Chwaraeon y DU |
| Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| Cyngor Llyfrau Cymru |
| Y Cyngor Optegol Cyffredinol |
| Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol |
| Y Cyngor Prydeinig |
| Cyngor Rheoleiddio Proffesiynolion Gofal Iechyd |
| Cyllid Cymru c.c.c. |
| Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr |
| FFORWM |
| Y Gronfa Loteri Fawr |
| Grŵp y Post Brenhinol c.c.c. |
| Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau |
| Sefydliad Datblygu Cymunedol |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru |
| Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru |
| Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cyfyngedig |
| Yr Ymddiriedolaeth Garbon |